

Cofion

- Ar ddechrau blwyddyn, cofiwn am y rhai a fu mewn profedigaeth yn ystod y flwyddyn diwethaf a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Cofiwn yn arbennig am deulu Mrs Mita Jones (Nantglyn) a fu farw ar drothwy'r Nadolig ac estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Dilys Owens (Cefn Meiriadog) a'r teulu o golli gŵr, tad a thaid annwyl.
- Treuliodd Celfyn Williams (Groes) a Gwenfyl Williams (Llanefydd) gyfnod yn yr ysbyty ac mae eraill yn parhau i fod yn yr ysbytai - Enid Pierce (Llanefydd) yn Ysbyty Abergele, ac Elsa Evans a William Jones (Llanefydd) yn yr Inffirmari. Parhawn i weddio drostynt am adferiad ac ar i'w teuluoedd adnabod cynhaliaeth yr Arglwydd.
- Llongyfarchiadau calonnog i Dei ac Eurgain Hughes (Llansannan) ar enedigaeth mab, Meilir Sion, ac i Iwan Jones (Llansannan) a Glian ar eu dyweddiad.
- Llongyfarchiadau hefyd i Llyr Davies (Nantglyn) ac Ibolya ar eu priodas.
- Cofiwn yn arbennig am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Mrs Megan Pritchard, Mrs Mair Roberts, Mrs Morfudd Davies, Miss Hannah Alice Jones, a Mr Elwyn Roberts (Yr Hen Ficerdy); Mrs Kitty Parry a Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Eiddwen Jones a Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts a Mrs Dilys Owens (Yr Hen Ddeondy); Mrs Jane Jones (Southern House); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir). Diolchwn am y gofal y maent yn ei dderbyn.

Sul Pwysig !!!

IONAWR 9fed – Bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn dod i oruchwylio'r bleidlais ymhlith aelodau'r eglwysi yn ystod yr oedfaon lleol. Bydd gofyn i chwi bleidleisio o blaid neu yn erbyn galw gweinidog newydd i'r Fro.

Yna, **OEDFA'R FRO am 6.00 yn Llansannan** pryd y cawn gyfle i ddweud diolch wrth Meirion a Sarah a'r plant am eu holl lafur yn ein plith. Bydd yr oedfa yn cael ei harwain gan Ben, bydd cynrychiolwyr yr Henaduriaeth yn dod atom a bydd y Parch Hywel Meredydd Llangefni yn agor y Gair. Mi fydd hefyd yn gyfle i ymrwymo i weddio dros Meirion â'i deulu wrth iddynt gychwyn ar gyfnod o weinidogaeth newydd.

I ddod

- Cyfarfod Chwiorydd Eglwysi Bro Aled yng Nghapel Groes ar nos Fawrth, Chwefror 1af am 7.30 gyda Sarah Morris yn annerch.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Ionawr 2011

“Yr wyf i gyda chwi yn wastad
hyd ddiwedd amser.”
Math. 28:20

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso mawr i chi i oedfaon y dydd ac i'r flwyddyn newydd! Gwaith hyfryd heddiw fydd canmol yr Arglwydd am ei holl ddaioni ac am ei ffyddlondeb di-dor. Beth bynnag oedd yn eich hosan Nadolig, gallaf fentro nad oedd i'w gymharu â bendithion bywyd a gawsom o law Duw yn ystod y flwyddyn a'i rodd fwyaf i ni yn ei Fab, Iesu! Dyma'n Ceidwad a'n Meddyg, yr Un sy'n caru maddau, ein Gwardwr ac Arglwydd yr holl fyd. Yn ei gwmni Ef yr ydym am gerdded i mewn i'r flwyddyn newydd gan wybod ei fod yno o'n blaenau ac y bydd gyda ni pob cam o'r daith.

Bydd angen i ni bwysu fwyfwy arno wrth i'r Ofalaeth wynebu her y cyfnod nesa yma hefo'n gilydd. Fel yr esgryn sychion yn y dyffryn, rydym wedi teimlo cynnwrf yr Ysbryd yn gweithio yn ein plith a'r wefr o gael ein gosod at ein gilydd asgwrn wrth asgwrn i gael ein bywau ganddo. Un o'r bendithion mwyaf sy'n cael ei roi gan Dduw i'w bobl ydi gweinidogaeth ei Air a chyhoeddiad ei Efengyl. Canlyniad uniongyrchol i farwolaeth, atgyfodiad ac eiriolaeth Crist yw'r weinidogaeth hon – dyna paham ei bod hi mor bwysig! Ein braint ni yn sicr fydd cydnabod yn ddiolchgar ffyddlondeb Duw tuag atom dros yr ugain mlynedd diwethaf yn cynnal Meirion a Sarah yn y weinidogaeth ryfeddol hon ac am i Dduw ein bendithio mor hael trwyddynt. Diolchwn Iddo – ‘byth na thewch’! Cofiwch am yr oedfa arbennig ar nos Sul y 9ed o Ionawr yn Llansannan am 6 yr hwyr pryd y byddwn yn dathlu, yn diolch ac yn dymuno'n dda iddynt yn eu gweinidogaeth newydd.

Dwn i ddim amdanoch chi ond dwi 'di dychryn fy hun yn ddiweddar o ystyried faint o amser dwi wedi'i dreulio yn gwrando ar ragolygon y tywydd! Digon teg - mae hi wedi bod yn aeafol iawn yn barod - ond gan fod hynt a helynt y tywydd a'r storfeydd halen a grit yn cael y lle blaenaf hyd yn oed ar y rhaglenni newyddion, doedd dim dianc rhag y proffwydo dibendraw! Dyna gyfuno adrodd yr hanes – sy'n nodwedd pob amser o waith newyddiadurwr – hefo ceisio rhagweld y dyfodol – sy'n rhan pob amser o waith y proffwyd tywydd. Edrych yn ôl ac ymlaen ar yr un pryd a wna'r Cristion hefyd, a hynny mewn hyder. Gwêl fod Duw o'i ôl a bod Duw o'i flaen. Yr un a fu'n agor y ffynhonnau yn anialwch y gorffennol sydd yn agor ffrydiau'r nefoedd o'i flaen. Felly, ymlaen â ni yn hyderus. Bron na fuaswn yn clywed Meirion yn dweud – “‘Mlân ma' Canaan!’”

Blwyddyn Newydd Dda i chi a phob teulu, a phob dymuniad da.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno.
- Llun Bydd Taith Gerdded i'r rhai mwyaf mentrus o'r Fro i ben Moel Siabod. Byddwn yn cyfarfod ger Pont y Pair, ar y ffordd i mewn i Gapel Curig am 9.30. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Meirion.
- Sul nesaf Cynhelir **gwasanaeth arbennig** yn Llansannan am 6.00 i arwyddo diwedd tymor Meirion yma fel gweinidog. Mi fydd Aneurin yn dweud gair ar ran yr Eglwysi, a byddwn yn croesawu y Parch Hywel Meredydd yma i bregethu. Bydd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00.
- Mawrth Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch Morris P. Morris yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwysi ynglŷn â'r dymuniad i alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00.
- Mawrth Oedfa Dechrau'r Flwyddyn dan arweiniad Miss Meryl Walters, Coleg y Bala yng Nghapel Bethania am 7.30.
- Mercher Cyfarfod dan nawdd Cymdeithas y Beibl yn y Festri am 7.30 yng nghwmni John Hughes, Rhosybol, a fydd yn sôn am waith y Gideoniaid.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Bethania am 7.30. Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwys ynglŷn â'r dymuniad i alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwysi ynglŷn â'r dymuniad i alw gweinidog. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Yn ystod yr oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais y ddwy eglwys ynglŷn â'r dymuniad i alw gweinidog.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa'r daith yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Yn ystod y ddwy oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwysi ynglŷn â'r dymuniad i alw gweinidog. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00.
- Llun Bydd Cyfarfod Gweddi'r Chwiorydd yng Nghefn Berain am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn yn Llanefydd am 7.00 gyda'r Parch Morris P. Morris yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.15. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain hefyd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore. Yn ystod y ddau Gyfarfod Gweddi, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cymryd llais yr eglwysi ynglŷn â'r dymuniad i alw gweinidog.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.